O F F E R Y N N A U S T A T U D O L
C Y M R U

2013 Rhif 656 (Cy. 75)

TRAFFIG FFYRDD, CYMRU

Gorchymyn Cefnffordd yr A494 (Loggerheads, ger yr Wyddgrug, Sir Ddinbych) (Gwahardd Aros) 2013

Wedi'i wneud	*13 Mawrth 2013*
Yn dod i rym	*14 Mawrth 2013*

Mae Gweinidogion Cymru, sef yr awdurdod traffig ar gyfer y Gefnffordd o Ddolgellau i Dde Penbedw (A494) (y cyfeirir ati yma wedi hyn fel "y gefnffordd"), drwy arfer y pwerau a roddwyd iddynt gan adrannau 1(1), 2(1) a (2), 4(2) a 124 o Ddeddf Rheoleiddio Traffig Ffyrdd 1984**(1)** (y cyfeirir ati yma wedi hyn fel "Deddf 1984") a pharagraff 27 o Atodlen 9 i'r Ddeddf honno, ac ar ôl ymgynghori â Phrif Swyddog Heddlu Gogledd Cymru, yn gwneud y Gorchymyn hwn.

Enwi, Dehongli a Chychwyn

1. Daw'r Gorchymyn hwn i rym ar 14 Mawrth 2013 a'i enw yw Gorchymyn Cefnffordd yr A494 (Loggerheads, ger yr Wyddgrug, Sir Ddinbych) (Gwahardd Aros) 2013.

2. (1) Yn y Gorchymyn hwn: –

ystyr "y darnau o'r gefnffordd" *("lengths of the trunk road")* yw'r darnau hynny o gefnffordd yr A494 yn Loggerheads ger yr Wyddgrug yn Sir Ddinbych sydd wedi eu pennu yn yr Atodlen i'r Gorchymyn hwn;

ystyr "llain ymyl" *("verge")* yw unrhyw ran o'r gefnffordd nad yw'n lôn gerbydau, yn gilfan nac yn gilfan fysiau ac sy'n cynnwys y droedffordd gyfagos.

(2) Mae unrhyw gyfeiriad yn y Gorchymyn hwn at erthygl â rhif yn gyfeiriad at yr erthygl sy'n dwyn y rhif hwnnw yn y Gorchymyn hwn.

Gwaharddiad

3. Ac eithrio fel y darperir yn erthygl 4, ni chaiff neb, onid yw'n gweithredu o dan gyfarwyddyd neu â chaniatâd heddwas, swyddog cymorth cymunedol o'r heddlu, neu swyddog gorfodi sifil, achosi na chaniatáu i unrhyw gerbyd aros ar unrhyw adeg ar ochrau'r darnau penodedig o'r gefnffordd, gan gynnwys y lleiniau ymyl.

Esemptiadau

4. Ni fydd unrhyw beth yn erthygl 3 yn ei gwneud yn anghyfreithlon i achosi neu ganiatáu i unrhyw gerbyd aros ar ochrau'r darnau penodedig o'r gefnffordd y cyfeirir atynt yn yr erthygl honno am gyhyd ag sy'n angenrheidiol er mwyn galluogi: –

(a) i unrhyw berson fynd ar gerbyd neu ddisgyn oddi arno;

(b) i nwyddau gael eu llwytho ar y cerbyd neu eu dadlwytho oddi arno;

(c) i'r cerbyd, os na ellir ei ddefnyddio'n gyfleus i bwrpas o'r fath ar unrhyw ffordd arall, gael ei ddefnyddio mewn cysylltiad ag unrhyw un o'r gweithrediadau canlynol, sef: –

(i) gweithrediadau adeiladu, diwydiannol neu ddymchwel;

(ii) symud ymaith unrhyw rwystr ar draffig;

(iii) cynnal a chadw, gwella neu ailadeiladu'r darnau a enwyd o'r gefnffordd; neu

(iv) gosod, codi, newid neu atgyweirio, ar y darnau a enwyd o'r gefnffordd neu ar dir cyfagos â hwy, unrhyw garthffos neu unrhyw brif bibell, pibell neu offer ar gyfer cyflenwi nwy, dŵr neu drydan, neu unrhyw linell delegraffig fel y'i diffinnir yn Neddf Cyfathrebu 2003**(2)**;

(ch) i'r cerbyd, os na ellir ei ddefnyddio'n gyfleus i bwrpas o'r fath ar unrhyw ffordd arall, gael ei ddefnyddio at wasanaeth awdurdod lleol yn unol â phwerau neu ddyletswyddau statudol;

(d) i'r cerbyd gymryd petrol, olew, dŵr neu aer o unrhyw fodurdy sydd wedi ei leoli ar y darnau a enwyd o'r gefnffordd neu'n gyfagos â hwy; neu

(dd) i'r cerbyd gael ei ddefnyddio at ddibenion brigâd dân, ambiwlans neu'r heddlu;